



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

CYFARWYDDYD CYNLLUNIO ATODOL

Datblygu Ynni Gwynt

Ionawr 1994

CYNNWYS

	Tudalen
Rhagair	3
A. Rhagarweiniad	5
B. Canllawiau Polisi sy'n cael eu hargymell	9
Atodiad I	15
Atodiad II	16

DATBLYGIAD YNNI GWYNT

Yn ei gyfarfod ar 26 Chwefror 1992, penderfynodd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Bwrdeistref Ynys Mon dderbyn ar adroddiad isod a'r argymhellion sydd ynddo fel polisi ar ddatblygu ynni gwynt. I gydymffurfio'n llawn gyda phenderfyniad y pwyllgor mae'r argymhelliad ar y niwsans y mae'n bosib ei greu oherwydd amharu ar negeseuon radio a theledu wedi ei ddiwygio.

Mae cofnodion y Pwyllgor Cynllunio wedi eu mabwysiadu gan y Cyngor Bwrdeistref yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth, 1992.

Mae'r cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol sydd yna yn cydymffurfio gyda pholisiau ar ddatblygu ynni adnewyddol yng Nghynllun Fframwaith newydd Gwynedd ac yn y drafft i Gynllun Lleol Ynys Mon. Isod rydym er gwybodaeth, yn dyfynnu'r darnau perthnasol o'r cynlluniau hyn.

Dyfyniad o Gynllun Fframwaith Newydd Gwynedd:

8.5 Ynni y Gellir ei Adnewyddu

8.5.1 Am y rhesymau a nodwyd uchod, mae'n debygol y rhoddir mwy o bwyslais ar gynhyrchu ynni o ffynonellau a adnewyddir - y gwynt, tonnau, dwr a'r haul - yng nghyfnod y Cynllun. Efallai y gwelir diddordeb mewn datblygu cynlluniau o'r fath yng Ngwynedd. Mae i'r cynlluniau cymharol fach hyn y fantais fod yr arbenigedd sydd ei angen i'w hadeiladu yn aml o fewn galluoedd adeiladwr neu gontract lleol cymwys. Er mai ychydig o waith o gynigir gan ddatblygiadau o'r fath yn y tymor hir ac mae dim ond gwaith cynnal a chadw ydyw, mae natur a graddfa prosiectau o'r fath yn addas iawn i'r syniad o gyflogaeth a'i sail yn y gymuned, a drafodwyd mewn rhan arall o'r ddogfen hon. Datblygir llawer o enghreifftiau o'r math yma o gynllun yng Nghanolfan Y Dechnegol Amgen ym Machynlleth.

POLISI C7

Bydd rhagdybiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd.

Dyfyniad o'r fersiwn ddrafft i Gynllun Lleol Ynys Mon:

YNNI ADNEWYDDOL

38. Bydd y Cyngor Bwrdeistref yn rhoddi sylw ffafriol i brosiectau yn ymwneud ag ynni adnewyddol pan fo modd dangos yn glir na chaent effaith andwyol ar:

- yr ardaloedd tirlun mwyaf sensitif
- systemau ecolegol o bwysigrwydd gwyddonol

- safleoedd a henebion hanesyddol o bwys
- safon y pleserau y mae preswylwyr ac ymwelwyr yn eu cael.
- systemau cysylltu hanfodol a gwasanaethau cyhoeddus hanfodol

Gallai prosiectau o'r fath fod yn gaffaeliad i ddarparu ynni yn y dyfodol a hefyd gallent fod yn gyfle i gyflwyno amrywiaeth i sylfaen economaidd yr ardaloedd gwledig. Ymhlith prosiectau fel y rhai hyn ceir cynlluniau harneisio'r gwynt, melinau dwr bychan, melinau heli neu felinau tonnau, llosgi coed neu fethan neu gynlluniau solar. Bydd yr ardaloedd hynny y mae'r tirwedd yn sensitif ynddynt yn cael eu ddiffinio yn y strategaeth tirwedd y cyfeirir ati dan Bolisiau 24-26 yn y Cynllun Lleol. Yn y cyfamser, hyd oni fydd y strategaeth wedi ei pharatoi, y ffactorau pwysicaf fydd ffiniau'r Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol, yr Arfordir Treftadaeth a'r Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol.

GWEITHREDU

Gweithredir ar y Polisi fel a ganlyn.

Fel y gall asesu'n iawn y risgiau a gyfyd oherwydd unrhyw effeithiau andwynol, bydd y Cyngor yn mynnu fod ymgeiswyr yn cyflwyno gwybodaeth am yr effaith o bosib ar yr amgylchedd yn sgil yr holl gynlluniau a'r unig eithriad i hyn fydd prosiectau bychan iawn ar raddfa ddomestig.

Bu y cyfarwyddyd cynllunio ychwanegol hwn ar gael i'r cyhoedd ei astudio ac i gyflwyno sylwadau arno pryd yr ymgynghorwyd gyda fersiwn ddrafft y Cynllun Lleol i'r holl Fwrdeistref yn ystod misoedd Mai i Mehefin 1992, ac yna cafodd ei ychwanegu at bolisiau'r cynlluniau datblygu statudol.

A. RHAGARWEINIAD

RHESYMAU DROS DDRAFFTIO'R CYFARWYDDYD ATODOL HWN

Yn ddiweddar, yn sgil pryderon oherwydd canlyniadau amgylcheddol cynhyrchu trydan gyda'r hen dechnolegau, aethpwyd ati ar frys i gynnal ymchwil ar ddatblygu dulliau eraill. Bellach mae gwaith datblygu wedi ei wneud ar systemau gwahanol o gynhyrchu ynni adnewyddol ond mae pŵer gwynt, yn arbennig, ar fin cael ei ddefnyddio ar raddfa fasnachol eang. Am y rhesymau sy'n cael eu hegluro yn y paragraffau isod mae'n debyg y bydd y pwysau o blaid caniatáu melinau gwynt neu ffermydd melinau gwynt gryfaf ar yr Awdurdodau Cynllunio hynny yn ardaloedd arfordinol ac yn ardaloedd mynyddig rhannau gorllewinol Prydain. Daeth y pwysau hwn o blaid datblygu yn annisgwyl ac eisoes mae'r Awdurdod hwn yn wynebu tri chais cynllunio am gynlluniau i ddatblygu ffermydd melinau gwynt. Dyma'r safleoedd, y cyfan ohonynt yn agos i'w gilydd yng Ngogledd-ddwyrain yr ynys:-

1. Rhyd y Groes, ger Rhosgoch
2. Mynydd Parys
3. Trysglwyn, ger Rhosybol.

Cyn y gall ymateb i'r pwysau hwn a gwneud penderfyniadau rhesymol a synhwyrol ar y ceisiadau hyn mae'n rhaid i'r Awdurdod wrth gyfarwyddyd polisi clir.

Tan yn ddiweddar iawn nid oedd cyfarwyddyd ar gael ar lefel genedlaethol ond gyda chyhoeddi'r drafft o Nodyn Cyfarwyddyd ar Bolisi Cynllunio yn ymwneud ag 'Ynni Adnewyddol' ym mis Rhagfyr, 1991, cafwyd cyfeiriadau defnyddiol ar y prif bynciau. Mae fersiwn ddrafft o'r Nodyn Cyfarwyddyd dywedir bod angen cynnwys, mewn cynlluniau datblygu, bolisiau ar brosiectau i ddatblygu ynni adnewyddol a pholisiau hefyd i ddiogelu prydfferthwch naturiol y tirwedd. Yn y Cynllun Fframwaith newydd i Sir Gwynedd sydd ar hyn o bryd yn cael sylw yn y Swyddfa Gymreig mae'r polisi isod wedi ei gynnwys:-

C7 Bydd rhagbydiaeth o blaid prosiectau gydag ynni y gellir ei adnewyddu, ar yr amod fod yr effaith ar yr ardal yn dderbyniol i'r Awdurdod Cynllunio Lleol. Lle bo hynny'n briodol, dylid cefnogi'r cynigion gan asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd.

Yn yr un modd bydd y drafft sy'n cael ei baratoi ar hyn o bryd i gynllun lleol y fwrdeistref yn cynnwys polisi cyffredinol fydd yn cefnogi cynlluniau i ddarparu ynni adnewyddol.

Mewn egwyddor, felly, rhaid croesawu defnyddio ynni adnewyddol ond ni ellir ei gefnogi yn yr ardaloedd hynny lle bydd yr effaith ar yr amgylchedd yn annerbyniol. Pwrpas paratoi'r cyfarwyddyd cynllunio atodol hwn yw ehangu'r polisiau drafft yn y cynllun datblygu gan roddi pwyslaidd arbennig ar bŵer gwynt. Ynndo ceir canllawiau clir i ddelio gyda'r ceisiadau sydd gerbron ac unrhyw geisiadau eraill a ddaw i mewn yn y dyfodol.

YNNI DINIWED

Ar hyn o bryd mae'r gefnogaeth i ynni gwynt fel dull diniwed o gynhyrchu pŵer yn tyfu ac yn tyfu trwy'r adeg. Daw mwy a mwy o dystiolaeth i'r fei sy'n dangos bod dulliau confensiynol o gynhyrchu trydan yn achosi niwed difrifol a thros dymor hir i'r amgylchedd. Yn y broses o losgi tanwydd ffosiliau, o'lew a glo mae peth wmbreth o nwy ty gwydr yn cael ei ollwng, sef Carbon Deuocsid i'r atmosffer. Efallai y cawn rhyw syniad am faint sydd yn cael ei ollwng trwy ystyried bod y Deyrnas Gyfunol ei hun wedi rhyddhau 190,000,000 tonnau o Garbon Deuocsid o'r gorsafoedd pŵer bob blwyddyn yn ystod diwedd yr 1980'au. Wrth i nwyon ty gwydr gronni yn yr atmosffer mae'r tymheredd ar wyneb y ddaear yn codi'n raddol. Nid ydym eto yn deall yn iawn beth ddigwyddith yn y dyfodol wrth i'r ddaear gynhesu ond mae'n byr debyg y byddwn yn wynebu newidiadau yn y tywydd ac y bydd difrod ecolegol yn cael ei achosi. Hefyd wrth inni losgi tanwydd ffosiliau mae ocsidau sylffwr a nitrogen yn cael eu cynhyrchu a'r rheini yn eu tro yn dod yn ol i'r ddaear ar ffurf glaw asid. Mae dystiolaeth i'r niwed ecolegol a ddaw yn sgil asideiddio i'w gweld mewn sawl rhan o Ewrop.

Mae gwrthwynebiad hefyd i bŵer niwcliar ac mae'r diwydiant yn gyffredinol yn wynebu anawsterau mawr yn codi yn sgil gwaith ail brosesu hen danwydd, cael gwared o wastraff ymbelydrol a dadgomisiynu hen adweithyddion.

Y mae modd wynebu'r problemau hyn trwy ddefnyddio ynni'n fwy effeithiol a gostwng yn sylweddol y gwastraff. Fodd bynnag, y mae'n fanteisiol datblygu technegol yr ynni adnewyddol er mwyn osgoi gorfod dibynnu ar ychydig bach o ffynhonnellau a hefyd oherwydd bod modd arafu twf yr ynni tanwydd ffosiliau. Yn genedlaethol y mae cytundeb cynyddol ynghlych yr angen i gadw'r nwy sy'n cael ei ryddhau i'r lefel bresennol a gostwng y lefelau yn y tymor hir. Gydag ynni adnewyddol ychydig iawn o lygredd sy'n cael ei achosi, dim o bosib ac nid oes raid ysbeilio adnoddau tywydd y byd tra bo'r rheini ar drai. Mae'r gwynt, fel ffynhonnell pŵer yn lan ac mi fydd yma am byth.

POLISI'R LLYWODRAETH

Mae'r Llywodraeth yn cefnogi ynni adnewyddol ac mae ganddi bolisi o hybu ymchwil a datblygu adnoddau ynni adnewyddol lle bynnag y mae modd i'r rheini fod yn broffidiol a hefyd fod yn dderbyniol o safbwynt yr amgylchedd. Cytuna'r polisi hwn ag agwedd y Gymuned Ewropeaidd.

Yn ol papur rhif 55 yr Adran Ynni - 'Renewable Energy in the UK: The Way Forward' amcangyfrifir bod modd i dechnolegau adnewyddol gyfrannu tua 25% at yr anghenion trydan erbyn y flwyddyn 2025, os ydyw'r holl ddatblygiadau yn llwyddiannus ac yn cael eu defnyddio'n fasnachol. Mewn Papur Gwyn o'r enw 'This Common Inheritance' rhoddir sylw i botensial ynni'r gwynt a gallu hwnnw i gyfrannu hyd at 10% at yr anghenion ynni cyfredol. Buasai hyn yn rhan o strategaeth y Llywodraeth i weithio tuag at 1,000 MW o drydan o ffynonellau adnewyddol erbyn y flwyddyn 2000, ac yn gyfraniad tuag at dynnu lefel y Carbon Deuocsid sy'n cael ei ryddhau i lawr i lefel 1990 erbyn y flwyddyn 2005.

Daw cefnogaeth hefyd i ddatblygu cynlluniau ynni adnewyddol o Ddeddf Trydan 1989, dani mae'r Ysgrifennydd Gwladol Dros Ynni a'r awdurdod i wneud gorchmynion yn mynnu bod Cwmnïau Trydan Rhanbarthol yn cymryd rhan o'u cyflenwad o ffynonellau sydd ddim yn dibynnu ar ffosiliau. Yn Saesneg gelwir y cyfrifoldeb hwn yn 'Non-Fossil Fuel Obligation' (NFFO), ac mae cymorthdal ar gael i ddatblygu ffynonellau adnewyddol trwy'r Dreth ar Danwydd Ffosiliau. Fodd bynnag, rhaid sefydlu cynlluniau ynni adnewyddol erbyn y flwyddyn 1998 os ydyw am gael cefnogaeth y 'Non-Fossil Fuel Obligation' ac ar ol y dyddiad hwn digwylir i'r prosiectau fod yn gystadleuol yn y farchnad rydd. Eglurir uchod bod y dyddiad hwn yn cael effaith ar ddewis safleoedd i ffermydd gwynt sy'n ddeniadol o safbwynt masnachol.

YR EFFAITH AR YR AMGYLCHEDD

Un o fanteision pennaf prosiectau pwer gwynt yw natur ddiniwed y dull hwn o ddatblygu ynni. Rhaid cofio, fodd bynnag, bod yn rhaid ystyried effaith y rhain ar yr amgylchedd pan fo safleoedd yn cael eu dewis i'r diben hwn. Mae melinau gwynt yn creu swm, yn taflu cysgodion, yn creu elfen o beryg ac yn amharu ar negeseuon radio. Bellach, fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw'r risgiau mor fawr ag a dybid ar y cychwyn os ydyw'r camau iawn yn cael eu cymryd.

Yr effaith weledol yw'r effaith fwyaf sydd ynghlwm wrth ddatblygu melinau gwynt gan fod y rheini yn uchel (rhyw 45 medr) ac yn creu argraff fertigol gryf ar y meddwl. Y lleoedd gorau i'r melinau hyn yw'r wlad agored lle nad oes dim i dorri ar lwybr y gwyntoedd ac o'r herwydd bydd y melinau gwynt i'w gweld yn glir iawn yn y tirwedd. Y lle gorau i felin yw ar fryn fel bod modd iddi ddal ar bob awel ac o'r herwydd mi fydd y melinau hyn yn tueddu i fod yn nodweddiadol amlwg iawn ar orwelion. Ffactor arall ychwanegol fydd yn gwneud y peiriannu hyn yn amlycach yn y tirwedd yw symudiad yr esgull wrth iddynt droi.

Gan fod gwyntoedd cryfion yn angenrheidiol bydd datblygu ffermydd o felinau gwynt yn arbennig o ddeniadol yn ardaloedd arfordinol a mynyddig gorllewin Lloegr a Chymru. Yn ychwanegol mae gorfodi datblygwyr i chwilio, ar frys, am safleoedd yn ardaloedd arfordirol a gorllewinol y wlad. Mae Gorllewin Prydain yn hardd ac yn bwysig i fywyd gwylt a bydd yr ardaloedd hynny y gosodir y melinau gwynt ynddynt yn rhwym o fod yn rhai prydfarth iawn. Gwelir felly bod yr ynni adnewyddol a glan yn tynnu'n groes i'r ymdrechion i ddiogelu cymeriad a harddwch rhai tiroedd deniadol iawn. Yma mae bygythiad arbennig i ardaloedd gwylt a rhai eraill lled-naturiol sydd yn aml iawn wedi eu dynodi yn lleoedd arbennig (Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd o Brydfarthwch Naturiol Eithriadol, Arfordiroedd Treftadaeth ayyb). Y cwestiwn mae'n rhaid ei ofyn yw - a ydyw'r ychydig o ynni sy'n cael ei greu gan fferm o felinau gwynt (rhyw 9 MW o gynllun gyda 23 melin) yn cyfiawnhau'r difrod sylweddol a wneir i ardal brydfarth?

Felly mae'n rhaid i'r polisi cynllunio fedru derbyn ynni gwynt oherwydd ei fod yn dull diniwed o greu ynni ac oherwydd ei fanteision eraill ond yr un pryd rhaid lleihau, cymaint ag y bo'n bosib, y risg i'r amgylchedd. Dyma sut y cafodd hyn ei grynhoi gan y Cyngor i'r Parciau Cenedlaethol.

"Renewable energy technologies must be as benign in terms of their location, scale, appearance and sensitivity to local conditions as they are in their method of energy generation".

Mae ardaloedd mawr ac eang sydd heb eu dynodi yn rhai arbennig a lle mae gwyntoedd cryfion ac yno mi fuasai datblygu ffermydd o feliniau gwynt yn dderbyniol. Yn y polisi isod cyflwynir canllawiau fel bod modd caniatau datblygiadau yn yr ardaloedd hyn.

B. CANLLAWIAU POLISI SY'N CAEL EU HARGYMELL

Yng nghyd-destun y materion sydd wedi eu hamlinellu yn rhan gyntaf yr adroddiad hwn mae'r polisi isod yn cael ei argymhell i'w fabwysiadau:-

POLISI YNNI GWYNT

1. POLISI CYFFREDINOL

Wrth asesu cynigion i godi melinau gwynt a datblygiadau ategol bydd y Cyngor Bwrdeistref yn rhoddi sylw i'r materion isod:-

- Diogelu Ardaloedd Prydferth sydd o Bwys
- Cadwraeth Natur
- Diogelu Safleoedd Hanesyddol ac Henebion Archaeolegol
- Swn
- Diogelwch y Cyhoedd
- Effeithiau Cysgodion Gwibiog
- Torri ar draws Negeseuon Radio
- Mynedfa i Rwydwaith Ffyrdd
- Holl effaith nifer o gynigion yn yr un ardal ac effeithiau melinau ynghyd a pheilonau pan fo'r rheini eisoes yn yr ardal

Eglurhad

Mae'r Cyngor Bwrdeistref yn dymuno cefnogi'r broses o ddatblygu technolegau i gael ynni adnewyddol fel ffordd o leihau'r bygythiad global sy'n newid ac yn llygru'r atmosffer. 'Ru'n pryd mae'n dymuno diogelu buddiannau lleol a bydd raid sicrhau na fydd yn cael ond y mymryn lleiaf o effaith ar yr amgylchedd yn lleol. O'r herwydd rhoddir sylw i gynigion i sefydlu ffermydd o felinau gwynt gan roddi ystyriaeth benodol i effaith y rhain ar brydferthwch yn lleol, ar gadwraeth ac ar ddiogelwch y cyhoedd.

2. ASESAD AMGYLCHEDDOL

Gyda phob cynnig i ddatblygu ffermydd o felinau gwynt bydd y Cyngor Bwrdeistref yn mynnu ar dderbyn asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd ac yn yr asesiad bydd syms yn dangos faint o swm fydd yn cael ei greu a hefyd mi fydd yno asesiad ar yr effaith ar yr amgylchedd.

Eglurhad

Gan fod y rhan helaethaf o'r fwrdeistref gyda chymeriad sensitif ac yn ardal wledig nad yw wedi ei difetha o gwbl a chan fod pryderon ymhlith y cyhoedd ynghlych union effaith datblygiadau dieithr mae'r Cyngor Bwrdeistref yn ystyried ei bod hi'n rhesymol mynnu ar ddatganiad ymhob achos ar yr effaith ar yr amgylchedd. Mae cais o'r fath yn cydymffurfio a Chyfarwyddyd y Gymuned Ewropeaidd 85/337 ac yn cydymffurfio hefyd ag Atodlen 2 Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref 1988 (Asesu'r Effeithiau Amgylcheddol) Rhif 1199. Rhaid rhoddi sylw arbennig i asesu effeithiau swm ac asesu hefyd yr effaith ar y tirwedd gan mai y ddau bwnc hwn sy'n achosi'r pryderon mwyaf a'r ansicrwydd mwyaf i'r cyhoedd. Rhaid dangos yr effaith ar yr amgylchedd trwy ddefnyddio ffotograffau wedi eu gosod ar ben ei gilydd ac yn dangos yr olygfa o lecynnau amlwg ac uchel. Mae yma ynghlwm yn Atodiad 1 restr o'r eitemau y bydd ar yr awdurdod eu hangen fel gwybodaeth ategol i gais.

3. TYSTYSGRIFAU

Gyda phob cais i godi melinau gwynt bydd y Cyngor Bwrdeistref yn mynnu ar dystysgrifau yn cymeradwyo y mathau o felinau er mwyn sicrhau y bydd y peiriannau arfaethedig yn addas i weithio ar y safleoedd a ddewisir.

Eglurhad

Mae'n ddymunol cael tystysgrif yn cymeradwyo'r mathau o felinau i bob datblygiad melinau gwynt a godir i bwrpas cynhyrchu trydan. Pan fo'r tystysgrifau hyn yn cael eu cyflwyno rhaid i'r ymgeiswyr am ganiatad cynllunio hefyd gyflwyno tystiolaeth eu bod wedi asesu, yn iawn ac yn briodol, y gwynt ar y safle, bod yr wybodaeth hon wedi ei defnyddio yn y broses o roddi tystysgrif, a bod yr wybodaeth wedi ei throsglwyddo i gynhyrchydd y peiriant a bod hwnnw wedi sicrhau bod y peiriant sy'n cael ei gynnig i'r safle yn addas i'r gwaith y disgwylir iddo ei wneud.

4A. DADGOMISIYNU

Bydd y Cyngor Bwrdeistref yn rhoddi amod ynghlwm wrth bob caniatad a roddir i ddatblygiad melin wynt. Dan yr amod bydd y tir yn cael ei adfer i'w gyflwr blaenorol pryd bynnag y rhoddir y gorau i ddefnyddio'r twrbinau i gynhyrchu trydan a phan fo'r safle, hefyd, yn cael ei ddadgomisiynu'n barhaol.

4B. DEFNYDDIO SAFLE YN BARHAOL

Bydd y Cyngor Bwrdeistref yn rhoddi amod ynghlwm wrth bob caniatad a roddir i ddatblygiad melin wynt a than yr amod hwnnw, onid yw twrbein cynhyrchu yn cael ei ddefnyddio i gynhyrchu trydan am gyfnod o chwe mis, rhaid cael gwared ohono ac adfer y tir i'w cyflwr blaenorol.

Eglurhad

Un o fanteision pennaf technoleg pwer gwynt yw'r ffaith nad yw'n cael effaith barhaol ar yr amgylchedd. O'r herwydd mae'r Cyngor Bwrdeistref yn ystyried y dylid adfer y safle i'w gyflwr blaenorol ar fyrder pryd bynnag y rhoddir y gorau i'w ddefnyddio i bwrpas cynhyrchu trydan.

5. ARDALOEDD DYNODEDIG

Ni fydd y Cyngor Bwrdeistref yn rhoddi caniatad i felinau gwynt yr yr ardaloedd dynodedig isod:-

- Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol Eithriadol
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig
- Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol
- Safleoedd Henebion wedi eu rhestru

Eglurhad

Mae'r Cyngor Bwrdeistref yn ystyried y buasai datblygu yn yr ardaloedd dynodedig hyn yn gwbl anghydnaws ag amcanion y dynodi a'r amcanion hynny yw diogelu prydfferthwch naturiol yr ardaloedd, y plaserau sydd ynddynt, y bywyd gwylt, daeareg yr ardaloedd a nodweddion hanesyddol y lle.

6. SAFLEOEDD GERLLAW ARDALOEDD DYNODEDIG

Bydd rhagdybiaeth yn erbyn datblygu ffermydd o felinau gwynt gerllaw ardaloedd dynodedig pan fo'r melinau yn debyg o gael effaith andwyol ar gadwraeth yr ardaloedd hynny. Pan fo ardal yn Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol ni fydd datblygiadau yn cael eu caniatáu ar safleoedd a allai amharu ar ansawdd, ar osodiad ac ar bleser y tirwedd a ddiogelir.

Eglurhad

Nid yw gosod llinell o gwmpas ardal ddynodedig yn awgrymu y dylid hefyd cael gwahanufur pendant rhwng gwerthoedd cadwraeth yn yr ardal ei hun a diystyru'r cyfan o'r gwerthoedd hynny y tu allan iddi. O'r herwydd dylid asesu unrhyw ddatblygiad arfaethedig ar safle sy'n agos i ardal ddynodedig yn nhermau yr effaith y mae'n debyg o'i gael ar ansawdd yr ardal ddynodedig. Bydd amlygrwydd a'r gallu i weld y safleoedd hyn sydd ger yr Ardaloedd o Brydferthwch Naturiol Eithriadol yn ystyriaeth bwysig. Yn yr un modd bydd raid asesu, yn fanwl iawn, y datblygiadau hynny allai gael effaith ar gynefin bywyd gwylt. Enghreifftiau o'r pethau y rhoddir

sylw iddynt yw unrhyw newidiadau yn lefelau dwr y safleoedd gwlyb, neu unrhyw rwystr i lwybrau hedfan adar sy'n mudo.

Safon a Argymhellir

Hyd oni fydd asesiad manwl wedi ei gynnal ar y tirwedd argymhellir na ddylid caniatáu melinau gwynt o fewn 400 metr i ffiniau Ardal o Brydferthwch Naturiol Eithriadol a rhaid asesu hefyd, yn fanwl iawn, effaith y cynigion hynny sydd 2 km neu lai o'r ffiniau.

7. ARDALOEDD HEB EU DYNODI

Yn y rhannau hynny o'r fwrdeistref sydd heb ddynodiad cadwraeth bydd cynigion i ddarparu melinau gwynt yn cael eu caniatáu os ydyw'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn fodlon na fyddant yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd. Bydd cynlluniau yn cael eu hasesu yn unol a'r meini prawf ac yn unol a'r safonau a argymhellir isod:-

7.1 Effaith melinau a'r yr amgylchedd lleol, ar y tirwedd, ar brydferthwch ac yn arbennig felly ar osodiad trefi, pentrefi, eglwysi, adeiladau rhestredig a henebion.

Y Safon a Argymhellir

Ni fydd datblygiadau yn cael eu caniatáu am o leiaf 300 metr o gwmpas henebion ac adeiladau rhestredig.

7.2 NIWSANS SWN I'R CYHOEDD

Y Safon a Argymhellir

Ni chaniateir i'r swm uchaf, sef hwnnw fydd yn cael ei fesur yn y ty agosaf fydd yn o leiaf 400 metr oddi wrth y twrbein agosaf, fod yn uwch na 40 dB(A) Leq, yn ol cyflymder gwynt o 5 metr yr eiliad wrth ymyl yr echel. Bydd lefel y swm yn cael ei nodi yn unol a'r Safon Brydeinig BS4142 (1990). Yn atodiad 2 cyflwynir yr amgylchiadau sy'n cael eu hargymell ynghylch lefelau swm.

7.3 DIOGELWCH Y CYHOEDD, CYSGODION GWIBIOG, YMYRAETH WELEDOL A'R EFFAITH AR DRAFNIDIAETH Y Ffordd

Y Safon a Argymhellir

Ni fydd twrbein yn cael ei osod ddim nes na 400 metr i'r ty agosaf ond gan wneud eithriad, o bosib, o'r tai hynny y mae perchenogion y tir lle bwriedir gosod y twrbein yn byw.

Ni chaniateir gosod twrbein yn nes na 400 metr i gefnffordd neu i briffordd sirol
Dosbarth 1 ac 150 metr i ffyrdd eraill neu i lwybrau cyhoeddus.

7.4 NIWSANS OHERWYDD AMHARU AR NEGESEUON RADIO A THELEDU

Y Safon a Argymhellir

Bydd y Cyngor Bwrdeistref yn asesu pob cais mewn yngynghoriad a'r BBC ac hefyd
a'r Radio Communication Agency.

7.5 RISG I LWYBRAU HEDFAN AWYRENNAU MILWROL A SIFILIAN

Y Safon a Argymhellir

Bydd y Cyngor Bwrdeistref yn asesu pob cais mewn ymgynghoriad a'r Weinyddiaeth
Amddiffyn ac a'r Awdurdod Hedfan Sifil.

7.6 DYLUNIAD CYNLLUNIAU O SAFBWyNT GOSODIAD, FFURF A LLIW Y TWRBINAU

Y Safon a Argymhellir

Rhaid i bob twrbein ar safle penodol fod o'r un maint, yr un nifer o esgyll fydd i bob
twrbein a bydd yr holl esgyll yn troi i'r un cyfeiriad.

Bydd lliw pob twr a'r holl esgyll yn ysgafn, yn ddwl ac ni fydd yn adlewyrchu goleuni
fel bod modd iddynt gydweddu a'r awyr ac a'r tirwedd.

Rhaid i niferoedd a lleoliad a grwpio'r melinau gydweddu a naws graddfa ac a
phatrwm y tirwedd.

Rhaid gosod y gwifrau o'r melinau at y grid dan ddaear ac ni fydd caniatad yn cael ei
roddi i glystyrru adeiladau ategol ac offer ychwanegol a ffensys ar safleoedd.

Eglurhad

Er gwaethaf y croeso a roddir i ddatblygu ynni gwynt gan ei fod yn lleihau y
sylweddau dinistriol sy'n cael eu gollwng i'r atmosffer rhaid, yr un pryd, sicrhau na
chant ond yr effaith leiaf bosib ar yr amgylchedd. Gyda'r safonau uchod a chyda
mesurau eraill i liniaru'r effaith bydd modd diogelu pleserau a diogelwch y cyhoedd
mewn modd digonol.

ATODIAD I

GWYBODAETH FYDD YN ANGENRHEIDIOL GYDA PHOB CAIS CYNLLUNIO

- (a) manylion technegol am y twrbein gwynt
- (b) uchder yr echel
- (c) lleoliad y rotor: ochr y gwynt i'r twr neu'r ochr arall
- (d) cyflymder y troi
- (e) cyflymder y gwynt yn torri i mewn
- (f) map ar raddfa benodol yn dangos: twrbein gwynt arfaethedig; cyfeiriad y gwyntoedd arferol; datblygiadau sydd eisoes gerllaw; siapau a lefelau i'r pwysedd swm ar 50, 45, 40, 35 dB(A) yn cael eu creu gan y melinau ar gyflymderau gwynt penodol pryd y bydd gwahanol fathau o swm amharu yn debyg o ddigwydd; unrhyw wybodaeth ychwanegol y cred y datblygwr y bydd hi o help i'r Awdurdod Cynllunio Lleol; fel enghraifft, effaith newid lleoliad y peiriannau hynny sydd agosaf i ddatblygiadau sydd eisoes yno
- (g) nodweddion swm gwynt y twrbein
- (h) lefel swm yr hyn sy'n creu swm
- (i) lefel pwysedd y swm wedi ei gyfleu mewn dB(A) yn cael ei greu gan dwrbein unigol mewn llecynnau 50 metr, 100 metr 150 metr, 200 metr, 300 metr a 500 metr oddi wrth y twrbein
- (j) canlyniadau gwaith mesur, yn annibynnol, y swm sy'n dod o'r twrbein gwynt arfaethedig. Os ydyw'n dwrbein prototeip a dim mesuriadau ar gael iddo yna rhaid cyflwyno manylion am y rhagolygon. Yn rhan o'r adroddiad rhaid cyflwyno gwybodaeth yn dangos ansawdd donal y swm e.e. spectra pwr pwysedd swm.

ATODIAD II

AMODAU SWN I FELINAU GWYNT

1. Rhaid iddynt fod yn o leiaf 400 metr oddi wrth adeiladau
2. Y swm uchaf a ganiateir ger unrhyw eiddo - 40 dB(A) Leq. yn ol cyflymder gwynt o 5 milltir yr awr wrth yr echel. Bydd y lefel hon i'r swm yn cael ei gweithio allan yn unol a'r Safon Brydeinig BS4142 (1990)
3. Rhaid cael gwarant i lefel swm pob twrbein a rhaid rhoi enghraifft i'r lefel hon wrth gomisiynu. Yn ychwanegol, pan fo twrbein yn creu mwy o swm na hwnnw gafodd ei warantu yna dylid peidio a'i ddefnyddio am gyfnod dros dro hyd oni fydd camau unioni wedi eu cymryd. Rhaid i'r awdurdod hwn gymeradwyo'r dull a ddefnyddir i bennu lefel y swm
4. Argymhellir bod y swm y mae pob twrbein yn ei greu yn cael ei fesur unwaith bob blwyddyn
5. Yn gyffredinol rhaid sicrhau nad yw'r datblygiad yn achosi unrhyw niwsans.

